Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Luisa Munro-Morris
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

**Dyddiad:** 07/04/2026

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Sicrwydd AGC o Wasanaethau Plant Blaenau Gwent**

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein hymweliad archwiliad sicrwydd â gwasanaethau plant Blaenau Gwent rhwng 23 a 25 Chwefror 2026.

## 1 Cyflwyniad

1.1 Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf'); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a pherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol hynny. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn seiliedig ar bedair egwyddor y Ddeddf, ac rydym wedi cofnodi ein canfyddiadau yn unol â'r rhain, sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

**Pobl – llais, dewis a rheolaeth**

- I ba raddau y mae pobl yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?
- I ba raddau y mae'r gweithlu yn cynnwys niferoedd digonol, yn meddu ar sgiliau perthnasol a phrofiad, ac yn cael ei gefnogi?

**Atal**

- I ba raddau y mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?
- Pa mor dda y caiff teuluoedd eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle y bo'n ddiogel ac er lles pennaf y plentyn, drwy ddulliau amserol ac ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau?

**Llesiant**

- Pa mor dda y caiff pobl eu hamddiffyn a’u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?
- I ba raddau y caiff risgiau, cynlluniau amddiffyn a chynlluniau gofal a chymorth eu dadansoddi, ac y caiff camau gweithredu eu cymryd yn ôl yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed ac i hybu eu lles?

**Partneriaeth**

- I ba raddau y mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl?
- Pa mor dda y mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal, eu cymorth a'r gwasanaethau y maent yn eu cael?

## 2 Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3 Crynodeb o'r Archwiliad Sicrwydd

3.1 Roedd y gwasanaethau plant yn mynd drwy broses ailstrwythuro gynlluniedig pan gynhaliwyd yr archwiliad sicrwydd gyda'r nod o gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy a chysondeb strategol. Mae aelodau'r gweithlu wedi cael eu cynnwys yn dda yn y newidiadau, wedi'u cefnogi gan brosesau goruchwylio a chyfathrebu clir gan yr arweinwyr er mwyn cynnal sefydlogrwydd yn ystod y broses drosglwyddo.

3.2 Mae ffocws clir ar leisiau plant, help cynnar, diogelu a gweithio mewn partneriaeth sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'u teuluoedd.

3.3 Mae'r arweinwyr yn weladwy ac yn dosturiol, a chânt eu cefnogi gan weithlu ymroddedig a fframwaith ymarfer clir. Mae hyn yn hyrwyddo diwylliant lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yr ymddiriedir ynddynt. Mae strategaeth glir ar gyfer y gweithlu, gan gynnwys rhaglen sefydlu, sesiynau goruchwylio a hyfforddiant, yn cefnogi gweithlu medrus a hyderus, gyda threfniadau archwilio a pherfformiad a goruchwyliaeth gan uwch-aelodau o'r staff yn llywio ymdrechion i ddysgu a gwella.

3.4 Mae sefydlogrwydd a chyd-leoliad rhai timau yn cefnogi parhad ac yn galluogi ymarferwyr i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â theuluoedd a phartneriaid. Mae dulliau creadigol o gynllunio olyniaeth a chadw staff profiadol yn helpu i atgyfnerthu gwydnwch y gweithlu.

3.5 Caiff lleisiau'r plant eu blaenoriaethu a'u hadlewyrchu mewn ymarfer, ac mae cymorth eiriolaeth wedi'i ymgorffori'n effeithiol ar y cyfan, wedi'i gefnogi gan ymwybyddiaeth dda ymhlith ymarferwyr a theuluoedd.

3.6 Mae ymarfer yn seiliedig ar gryfderau wedi'i sefydlu'n gadarn. Caiff teuluoedd eu cynnwys mewn asesiadau a gwaith cynllunio yn rheolaidd ac mae'r cynlluniau'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Ceir enghreifftiau cryf sy'n dangos bod barn y plant yn llywio asesiadau, gweithgarwch diogelu a gwaith cynllunio gofal mewn ffordd ystyrlon, wedi'u hategu gan ddulliau ymarfer creadigol i helpu'r plant i ymgysylltu a deall eu profiadau bywyd.

3.7 Mae'r gwasanaeth cyfan yn ymrwymedig iawn i atal a help cynnar, ac ategir hyn gan lwybrau clir er mwyn gwneud penderfyniadau amserol ac uwchgyfeirio materion neu roi cymorth llai dwys pan fo angen. Mae nodi anghenion yn gynnar yn helpu i atal achosion o uwchgyfeirio'n ddiangen. Fodd bynnag, gall cyfyngiadau mewn rhai gwasanaethau ataliol a cham-i-lawr effeithio ar y gallu i gynnal cynnydd i deuluoedd.

3.8 Caiff trefniadau diogelu effeithiol eu cefnogi gan brosesau llywodraethu clir, dulliau sicrhau ansawdd a gwaith amlasiantaethol cryf. Mae'r ymarferwyr yn dangos hyder wrth reoli risgiau cymhleth, a chânt eu cefnogi gan drefniadau goruchwylio gan y tîm rheoli.

3.9 Mae cydberthnasau strategol a gweithredol yn gryf ac yn gydweithredol. Mae proses effeithiol ar waith i gydgynhyrchu cynlluniau gofal a chymorth gyda phlant a theuluoedd ar lefel unigol, sy'n cefnogi ymdeimlad o berchnogaeth a rennir a chyfranogiad.

3.10 Er gwaethaf y cryfderau hyn, nid yw'r ymarfer bob amser yn gyson, yn enwedig wrth lunio cofnodion, dadansoddi mewn ffordd fyfyriol, a chyfathrebu â theuluoedd. Mae'r rhain yn nodi cyfleoedd i wella'r ymarfer a'r systemau.

3.11 Mae pwysau ar y gweithlu, mynediad at wasanaethau allanol a digonolrwydd o ran lleoliadau yn parhau i gyflwyno heriau. Mae atgyfnerthu prosesau goruchwylio, cysondeb ac ymatebion partneriaeth yn parhau i fod yn allweddol i gynnal momentwm cadarnhaol a gwella canlyniadau i blant a theuluoedd ymhellach.

3.12 Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n dangos bod sylfaen gref i'r gwasanaethau plant barhau i gyflawni a gwella, wedi'i nodweddu gan arweinyddiaeth effeithiol, gweithlu ymroddedig, dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn a gwaith partneriaeth cadarnhaol.

## 4 Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor y Ddeddf.

**Pobl**

**<u>Cryfderau</u>**

4.1 Mae arweinyddiaeth gref a gweledol yn hyrwyddo gweithlu medrus a gaiff ei gefnogi. Mae hyn yn seiliedig ar fframwaith clir ar gyfer darparu a datblygu'r gwasanaethau plant. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo dull rheoli agored a thosturiol, wedi'i ategu gan strategaeth glir ar gyfer datblygu'r gweithlu, disgwyliadau o ran goruchwyliaeth a rhaglen sefydlu strwythuredig ar gyfer ymarferwyr newydd gymhwyso.

4.2 Mae cyfleoedd i ymarferwyr profiadol gamu i mewn i rôl uwch-ymarferwyr er mwyn cael profiad strwythuredig o arwain yn y gwaith a pharatoi ar gyfer y cam nesaf yn eu gyrfa. Mae hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol ac yn cadw sgiliau yn y gwasanaethau plant. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol, ac yn adlewyrchu dull creadigol o gynllunio olyniaeth wrth feithrin hyder a gwydnwch y gweithlu.**

4.3 Mae trefniadau goruchwylio a hyfforddiant yn hyrwyddo gweithlu medrus a gaiff ei gefnogi. Dywedodd pob aelod o'r staff (68/68) a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, ac roedd bron pob aelod o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr a chydweithwyr ac yn cael budd o hyfforddiant da. Mae cofnodion goruchwylio a chyfranogiad ymarferwyr yn atgyfnerthu hyn, ac yn disgrifio arweinyddiaeth hygyrch a chefnogol sy'n blaenoriaethu llesiant.

4.4 Ar lefel weithredol, mae sefydlogrwydd y gweithlu a chyd-leoliad rhai timau yn cefnogi parhad ac yn helpu ymarferwyr i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â theuluoedd a phartneriaid. Mae adborth gan ymarferwyr yn adlewyrchu diwylliant lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac yr ymddiriedir yn eu barn broffesiynol. Tynnwyd sylw at hyn gan ymarferydd a ddywedodd ei fod yn cael ei *“treated as an expert in your cases”*.

4.5 Caiff ymrwymiad strategol cryf i hyrwyddo lleisiau plant ei ategu gan fframwaith ymarfer yn seiliedig ar ganlyniadau, archwiliadau sicrhau ansawdd ac archwiliadau'n seiliedig ar themâu, mentoriaid ymarfer a dogfennaeth ddiwygiedig sy'n blaenoriaethu llais y plentyn.

4.6 Caiff safbwyntiau'r plant eu casglu mewn ffordd ystyrlon yn aml er mwyn llywio asesiadau, cynllunio gofal a rheoli risg. Caiff enghreifftiau cryf o safbwyntiau'r plant eu hadlewyrchu'n glir mewn gweithgarwch diogelu drwy asesiadau, adroddiadau cynadleddau, cynlluniau gofal a chymorth a dadansoddiad proffesiynol. Mae'r rhain yn cysylltu'n uniongyrchol â phenderfyniadau allweddol am ddiogelwch a chynnydd, sy'n dangos sut mae lleisiau'r plant yn llywio barn broffesiynol a chanlyniadau.

4.7 Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau gwaith uniongyrchol ac yn seiliedig ar gydberthnasau yn effeithiol, fel adnoddau gweledol, naratifau '*diwrnod mewn bywyd'* , ysgrifennu'n uniongyrchol at blant a'r *MyST Journey Tool*. Mae'r dulliau hyn yn helpu'r plant i ddeall eu profiadau a myfyrio arnynt. **Mae'r dulliau hyn yn dangos ymarfer cadarnhaol, ac yn cefnogi dulliau ymgysylltu gwirioneddol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.**

4.8 Caiff teuluoedd eu cynnwys mewn gwaith asesu, cynllunio ac adolygu yn rheolaidd, sy'n adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a chanlyniadau. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys pan fydd y dulliau cyfathrebu yn gyson. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y gwasanaeth help cynnar a gwasanaethau statudol ac mae'n dangos ffocws a rennir ar ymarfer yn seiliedig ar gryfderau o'r adeg y rhoddir camau ymyrryd yn gynnar ar waith.

4.9 Mae lleisiau'r plant yn llywio ymarfer fel mater o drefn, gan gynnwys camau i ystyried dewisiadau cyfathrebu ac iaith, ac mae'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wedi'i ymgorffori ar y cyfan. Caiff hyn ei gefnogi gan ddisgwyliadau llywodraethol, hyfforddiant ac adborth sy'n dangos bod anghenion cyfathrebu'r plant a theuluoedd yn cael eu cydnabod.

4.10 Caiff eiriolaeth ei chefnogi, ac mae llawer o'r plant a theuluoedd yn cael gwybod am wasanaethau cymorth ac yn gallu cael gafael arnynt, ond nid yw'r broses gofnodi bob amser yn gyson. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan drefniadau clir ar gyfer comisiynu gwasanaethau eirioli a phroses oruchwylio gan uwch-aelodau o'r staff. Nododd y rhan fwyaf o'r bobl a bron pob aelod o'r staff fod gwasanaethau eirioli yn cael eu cynnig a'u bod ar gael, ac roedd enghreifftiau o arferion da yn dangos bod gwasanaethau eirioli yn cael eu cynnig a'u cofnodi.

## Meysydd i'w Gwella

4.11 Mewn rhai achosion, nid oedd y cofnodion yn dangos yn glir fod gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried, y caiff y cynnig rhagweithiol ei adolygu ar adegau allweddol a'r rhesymau dros wrthod gwasanaethau eirioli. Mae hyn yn golygu bod llai o sicrwydd bod y bobl yn cael eu cefnogi'n gyson i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau drwy gydol eu cyfranogiad. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y cynnig o wasanaethau eirioli, adolygiad a'r rhesymau dros wrthod gwasanaethau eu nodi'n fwy cyson.**

4.12 Er bod yr arweinwyr yn rhoi pwyslais clir ar ymarfer myfyriol a gaiff ei arwain gan y gwersi a gaiff eu dysgu, nid yw hyn yn cael ei ddangos yn gyson mewn cofnodion gofal cymdeithasol a chofnodion goruchwylio, sydd yn aml yn canolbwyntio ar dasgau. O ganlyniad, nid yw'r cofnodion bob amser yn nodi ansawdd yr ymarfer a ddisgrifir gan y bobl a'r ymarferwyr. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y cofnodion gofal a'r cofnodion goruchwylio yn dangos**

**tystiolaeth o ddadansoddiad myfyriol a barn broffesiynol fel mater o drefn.**

4.13 Disgrifiodd ymarferwyr ymarfer cryf sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnwys gwaith uniongyrchol ac, ar y cyfan, mae'r adborth yn dangos y caiff cynlluniau gofal a chymorth eu rhannu â theuluoedd, ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn y cofnodion bob amser. Ni chaiff lleisiau'r plant eu nodi'n gyson yn ystod camau cyntaf eu cyfranogiad, gan gynnwys yn ystod cyfarfodydd dilynol, ac ni roddir esboniad clir lle nad oedd yn bosibl ymgysylltu â nhw yn uniongyrchol. Mae'r arweinwyr yn cydnabod bod pwysau o ran amser a'r system yn effeithio ar gysondeb y broses gofnodi. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a safbwyntiau'r plant fel mater o drefn, a'i gwneud yn glir bod dogfennau gofal perthnasol yn cael eu cynnig i deuluoedd.**

4.14 Mae'r bobl wedi cael profiadau cymysg wrth gyfathrebu â'r gwasanaethau plant, er bod llawer o'r bobl yn teimlo y gallant fynegi pryderon. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau lle roedd oedi wrth gael gwybodaeth a threfniadau cyfathrebu amrywiol ar adegau trosglwyddo allweddol ac â'r holl bobl sydd â chyfrifoldeb rhianta. **Dylai'r awdurdod lleol atgyfnerthu ei brosesau i gyfathrebu â theuluoedd mewn ffordd amserol, gan sicrhau bod pob unigolyn â chyfrifoldeb rhianta yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.**

4.15 Gall y pwysau sydd ar y gweithlu, sy'n gysylltiedig â galw cynyddol, cymhlethdod a phroffil profiadau presennol gweithlu'r gwasanaethau plant, greu pwysau ychwanegol ar y timau. Mae'r ymarferwyr ym mhob un o'r timau yn dangos ymrwymiad cryf a pharodrwydd i gefnogi ei gilydd pan fyddant dan bwysau. Er bod y trefniadau goruchwylio a chefnogi yn gryf ac er bod yr uwch-arweinwyr yn ymwybodol o'r pwysau, mae risg amlwg i lesiant a gwydnwch y gweithlu dros amser. **Dylai'r awdurdod lleol gymryd camau rhagweithiol i oruchwylio capasiti'r gweithlu, yn ogystal â llwythi gwaith a'r pwysau sydd ar y system, sy'n rhan ganolog o gynnal llesiant a gwydnwch y gweithlu.**

**Atal**

**Cryfderau**

4.16 Mae pob rhan o'r gwasanaeth wedi ymrwymo i atal a rhoi help yn gynnar sydd wedi'i ategu gan strategaethau a llwybrau sefydledig, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn sicrhau bod cymorth parhaus ar gael sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, gwneud penderfyniadau cymesur a phrosesau effeithiol ar gyfer uwchgyfeirio ac atal achosion rhag dwysáu. Mae prosesau llywodraethu, goruchwylio perfformiad ac integreiddio cryf â gwasanaethau statudol yn helpu i dargedu help cynnar lle mae ei angen fwyaf, gan leihau achosion o uwchgyfeirio'n ddiangen a hyrwyddo canlyniadau cynaliadwy i blant a theuluoedd.

4.17 Mae gwneud penderfyniadau'n brydlon mewn perthynas ag atgyfeiriadau newydd ac asesiadau amserol yn helpu i leihau achosion o oedi a nodi anghenion yn gynnar. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn goruchwylio perfformiad a dywedodd yr ymarferwyr a theuluoedd fod cymorth ymatebol ar gael ar adegau allweddol pan fo angen drwy lwybrau help cynnar, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth a'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n helpu i leihau'r angen i uwchgyfeirio i lawer. Mae ffocws parhaus ar wella gwasanaethau atal hefyd yn amlwg, fel cynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf i atgyfnerthu cymorth mewn ysgolion er mwyn nodi anghenion sy'n codi a darparu help yn gynt.

4.18 Mae'r ymarferwyr yn nodi risgiau ac anghenion yn gynnar, ac yn defnyddio prosesau adolygu, cynllunio a goruchwylio yn effeithiol i gefnogi camau diogel i atal achosion rhag dwysáu ac ailuno plant â theuluoedd lle y bo'n briodol. Mae help cynnar, yn enwedig drwy wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, yn cefnogi help amserol wedi'i dargedu sy'n gwella canlyniadau i deuluoedd. Mae llwybrau clir a fforymau ar y cyd rhwng timau help cynnar, timau statudol a thimau lleol yn sicrhau trefniadau pontio mwy hwylus ac ymatebion cymesur. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol, ac yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cymesur a defnydd effeithiol o help cynnar i reoli risgiau a gwella canlyniadau i'r plant a theuluoedd.**

4.19 Mae'r adborth yn nodi bod gofalwyr ifanc a gofalwyr yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi. Caiff llesiant ei gefnogi drwy gamau nodi'n gynnar, llwybrau help cynnar cydgysylltiedig ac asesiadau ar y cyd, sy'n helpu teuluoedd i gael cymorth amserol ac i leihau'r pwysau.

4.20 Mae ymyriadau grŵp, fel grwpiau peilot a gaiff eu llywio gan ymarferwyr ar gyfer plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn ymateb i anghenion llesiant emosiynol a nodir, y rhaglen Cylch Diogelwch ar gyfer rhieni a grwpiau cymorth i ofalwyr ifanc, yn cynnig gwasanaethau

cefnogol a strwythuredig i bobl. **Mae'r mentrau wedi'u targedu hyn yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol, ac yn helpu'r plant a theuluoedd i ddatblygu rhwydweithiau a gwydnwch emosiynol.**

4.21 Caiff cryfderau mewn rhwydweithiau teuluol a chymunedol eu cydnabod fel nodwedd hollbwysig i atal achosion rhag dwysáu a lleihau'r angen i blant dderbyn gofal. Defnyddir dulliau yn seiliedig ar deuluoedd, fel cynadleddau grŵp teulu, ochr yn ochr â gwasanaethau cymunedol a help cynnar, yn effeithiol i ddatblygu gwydnwch a chefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. Mae gweithgarwch ymgysylltu ac adborth yn dangos y caiff teuluoedd eu hannog i ystyried gofyn am gymorth gan aelodau ehangach o'r teulu a'r gymuned cyn i bryderon fynd yn waeth. Mewn un enghraifft, llwyddwyd i sefydlogi dynameg gymhleth mewn teulu drwy ymyrraeth gan wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf ar y cyd ag ymyriadau seicolegol, sy'n dangos bod cymorth ataliol cydgysylltiedig effeithiol ar gael.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.22 Mewn rhai achosion, nid yw'r camau gweithredu sydd wedi'u cofnodi, fel yng ngweithgarwch adran 47, y cynlluniau diogelwch a'r Cynlluniau Gofal a Chymorth, yn ddigon eglur i ddangos sut y caiff risgiau eu rheoli, sut y caiff cynnydd ei adolygu a sut y caiff effaith ei monitro. Nid yw'r camau gweithredu bob amser yn benodol nac yn nodi'r unigolyn atebol yn glir, ac mae'r amserlenni a'r trefniadau adolygu yn amrywio. Mewn perthynas â phrosesau diogelu, gall hyn gyfyngu ar sicrwydd a chynyddu'r risg o greu sefyllfaoedd anwadal. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y camau gweithredu yn benodol, yn nodi'r unigolyn atebol yn glir, yn cadw at yr amserlen ac yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau y gellir rheoli risgiau yn effeithiol ac atal sefyllfaoedd anwadal posibl.**

4.23 Mae oedi neu gyfyngiadau o ran cymorth dilynol ar gyfer rhai teuluoedd, fel gwasanaethau cam-drin domestig, seibiant a gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, yn cyfyngu ar effeithiolrwydd help cynnar a chamau i atal achosion rhag dwysáu. Mae adborth gan bobl a staff yn dangos enghreifftiau lle mae cyfyngiadau ehangach o ran cymorth yn tanseilio cynnydd teuluoedd ac yn cynyddu'r risg y bydd sefyllfaoedd yn gwaethygu neu y bydd angen ceisio cymorth sawl gwaith, er gwaethaf y ffaith bod prosesau statudol effeithiol ar waith ar gyfer ymyrryd ac atal achosion rhag dwysáu. Mae hyn yn rhoi pwysau ar wasanaethau statudol. Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar liniaru'r pwysau hyn, er enghraifft drwy gynnig cymorth mewnol a chymorth wedi'i gomisiynu fel ymyriadau gan MyST a'r Tîm Cefnogi Newid. Fodd bynnag, mae'n dangos bod angen mynd i'r afael ag oedi systemig mewn darpariaethau allanol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i atgyfnerthu dulliau gweithio amlasiantaethol, gan gynnwys prosesau uwchgyfeirio ac atebolrwydd, er mwyn sicrhau bod help cynnar a chymorth camu i lawr amserol ac effeithiol ar gael i deuluoedd.**

**Llesiant**

**<u>Cryfderau</u>**

4.24 Caiff gweithdrefnau diogelu eu cefnogi gan drefniadau strategol a llywodraethu clir, gan gynnwys prosesau goruchwylio'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol, gweithgarwch ymgysylltu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a phrosesau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith gan arweinwyr i oruchwylio risgiau a'r gwersi a ddysgwyd ar y cyd. Ar lefel ymarferol, mae tystiolaeth yn dangos bod prosesau gweithio amlasiantaethol effeithiol ar waith, yn ogystal â chyfranogiad cryf mewn cyfarfodydd diogelu, dulliau rhannu gwybodaeth amserol, ac ymatebion cydgysylltiedig er mwyn rheoli risgiau.

4.25 Mae fframwaith o archwiliadau, adroddiadau ar berfformiad a phrosesau goruchwylio gan uwch-aelodau o staff yn galluogi'r awdurdod lleol i ddeall pa mor dda y mae'r gwasanaethau yn perfformio a lle mae angen gwneud gwelliannau. Caiff y gwersi a ddysgir o archwiliadau, cwynion, arolygiadau a data perfformiad eu nodi fel mater o drefn a'u defnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae hyn yn cefnogi diwylliant o ddysgu ac atebolrwydd.

4.26 Mae fforymau strwythuredig, fel sesiynau goruchwylio amlasiantaethol ar gyfer trafod ymyriadau cymhleth, a chyfarfodydd strategaeth rheolaidd ar ganlyniadau, yn hyrwyddo gwaith dadansoddi a rennir, her broffesiynol a dulliau rheoli risg cydgysylltiedig. Dywedodd y partneriaid fod y rhain yn effeithiol ac yn werthfawr. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol, ac yn sicrhau y gellir goruchwylio a dadansoddi'r trefniadau diogelu cyfunol a dysgu ohonynt.**

4.27 Mae'r ymarferwyr yn dangos hyder wrth reoli risgiau cymhleth, a chânt eu cefnogi gan drefniadau goruchwylio gan y tîm rheoli a threfniadau diogelu sefydledig. Mae'r ymarfer yn dangos y caiff risgiau eu nodi'n amserol ac yr ymatebir iddynt mewn ffordd gymesur, gan gynnwys defnydd effeithiol o drefniadau cynllunio diogelwch a chymorth i deuluoedd. Mae'n amlwg bod ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar gryfderau ar waith, wedi'i atgyfnerthu drwy ymrwymiad y tîm arwain a threfniadau i ddatblygu ymarfer yn barhaus.

4.28 Caiff gweithgarwch diogelu ei esbonio'n glir i'r plant a'u rhieni, sy'n eu helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd a pham. Dywedodd y plant fod y rhyngweithio rhyngddynt â gweithwyr amlasiantaethol proffesiynol yn gymesur ac yn rhoi sicrwydd iddynt, ac yn golygu y gall llawer ohonynt deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn. **Mae hyn yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol, gan gefnogi ymddiriedaeth mewn gweithwyr proffesiynol a hyder yn y prosesau diogelu.**

**Meysydd i'w Gwella**

4.29 Er y caiff risgiau eu rheoli'n briodol ar y cyfan ac er bod yr ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth glir o effaith emosiynol a seicolegol wrth drafod, ni ddangosir hyn yn glir mewn asesiadau a chynlluniau bob amser. Mae hyn yn cynnwys rhai dadansoddiadau nad ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth am effaith niwed ar brofiad bywyd plant. **Dylai'r awdurdod lleol atgyfnerthu cysondeb ac ansawdd y dystiolaeth o effaith niwed ar brofiad bywyd plant mewn dadansoddiadau, er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn, goruchwylio trefniadau diogelu a sicrhau parhad.**

4.30 Gall ffactorau allanol, gan gynnwys oedi cyn cael cyfraniad yr heddlu ac argaeledd cyfyngedig gwasanaethau iechyd, effeithio ar amseroldeb ac effeithiolrwydd gweithgarwch diogelu. Mae hyn yn peri risg o ansicrwydd i deuluoedd a gall olygu bod ymarferwyr yn rheoli risgiau am gyfnod hwy. Er bod partneriaid yn deall ac yn defnyddio'r llwybrau uwchgyfeirio, gall oedi effeithio ar gynnydd a chynyddu'r risg o sefyllfaoedd anwadal i deuluoedd o hyd. **Dylai'r awdurdod lleol fonitro'r achosion hyn o oedi ac uwchgyfeirio pryderon at bartneriaid lle mae capasiti yn effeithio ar amseroldeb, er mwyn sicrhau bod ymatebion diogelu yn parhau'n gyson ar gyfer plant.**

**Partneriaeth**

**Cryfderau**

4.31 Mae ymrwymiad strategol cryf i weithio mewn partneriaeth, wedi'i gefnogi gan gydberthnasau lleol a rhanbarthol effeithiol a threfniadau llywodraethu clir. Mae'r awdurdod lleol yn cymryd rhan mewn trefniadau diogelu corfforaethol a rhanbarthol, gan hyrwyddo dulliau agored, atebolrwydd a rennir a her adeiladol. Dywedodd y partneriaid yn gyson fod yr awdurdod lleol yn gydweithredol, yn dryloyw ac yn barod i ymgysylltu.

4.32 Mae gwaith amlasiantaethol effeithiol yn amlwg yn y trefniadau diogelu, atal a gofal. Mae partneriaid yn cydweithio'n gyson mewn cyfarfodydd a chynadleddau diogelu statudol, gan ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig a rhannu gwybodaeth mewn ffordd amserol. Mae adborth gan randdeiliaid yn dangos bod lefel uchel o hyder mewn gwaith partneriaeth.

4.33 Mae prosesau cydgynhyrchu effeithiol yn amlwg ar lefel unigol, ac mae'r plant a theuluoedd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith cynllunio ac adolygu. Mae'r ymarferwyr o'r farn bod cydgynhyrchu yn rhan ganolog o ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, a dywedodd nifer o deuluoedd eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Lle y bo'n briodol, caiff pobl ifanc eu cefnogi i chwarae rhan weithredol yn eu hadolygiadau, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd, sy'n sicrhau bod ganddynt reolaeth a'u bod yn gallu cyfrannu. **Mae hyn yn adlewyrchu ymarfer cadarnhaol a grymusol sy'n hyrwyddo perchnogaeth a rennir ac yn cael dylanwad ystyriol ar brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.**

**Meysydd i'w Gwella**

4.34 Er bod proses gydgynhyrchu effeithiol ar waith gyda theuluoedd ar lefel unigol, nid yw rhai pobl yn deall sut mae eu hadborth yn dylanwadu ar welliannau ehangach i'r gwasanaeth. Er bod nifer o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, nid yw bob amser yn glir sut y defnyddir y gwersi a ddysgir i lywio gwasanaethau. **Dylai'r awdurdod lleol wella'r ffordd y mae gwersi a ddysgir o brofiadau bywyd, eiriolaeth a chwynion yn llywio datblygiadau i wasanaethau a'r broses gomisiynu, a'r ffordd hyn ei rannu â'r bobl.**

4.35 Gall pwysau parhaus ynghylch digonolrwydd lleoliadau effeithio ar ddewis a pharhad i rai plant. Mae'r arweinwyr yn cydnabod yr heriau hyn ac yn dangos ffocws strategol clir ar atgyfnerthu darpariaeth leol, gan ymateb mewn ffordd ragweithiol a chreadigol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod digon o leoliadau ar gael a bod trefniadau sicrhau cynaliadwyedd y farchnad yn cyd-fynd ag anghenion y plant er mwyn darparu lleoliadau sefydlog, addas a, lle y bo'n bosibl, lleol.**

4.36 Gall amrywioldeb yn y ffordd y caiff trothwyon eu rhoi ar waith gan bartneriaid roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau drws ffrynt a diogelu. Gall hyn arwain at roi ymyriadau statudol ar waith lle gall cymorth cynharach fod yn fwy priodol. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn rhagweithiol drwy ymgysylltu â phartneriaid, cynnal trafodaethau'n seiliedig ar ganlyniadau, a rhannu gwersi amlasiantaethol. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'r ymdrechion hyn i atgyfnerthu dealltwriaeth gyffredin a chyson o drothwyon ymhlith partneriaid er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cymesur, lleihau achosion o uwchgyfeirio'n ddiangen ac atgyfnerthu gwasanaethau help cynnar ac atal.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â nhw. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 25 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 22 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain tri.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, grwpiau ffocws a/neu gymorth, â 15 o blant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaethau. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â saith rhiant/cynrychiolydd.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, grwpiau ffocws a/neu gymorth, â 43 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelod etholedig (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gwasanaethau, pennaeth y gwasanaeth). Gwnaethom hefyd ymgysylltu â phedwar partner allanol.
- Gwnaethom ddadansoddi ymatebion i'r arolwg gan 47 o bobl, 68 o aelodau o staff gwasanaethau cymdeithasol, ac 20 o randdeiliaid.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol at ddiben yr arolygiad.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd AGC ar gael yn [https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol](https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol).

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol. Derbyniodd pobl a oedd yn dymuno ymgysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr archwiliad sicrwydd y cynnig rhagweithiol.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |